# PARTNERIAETH BRO DDIOGELACH

# ADOLYGIAD O FARWOLAETH SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHAM-DRIN DOMESTIG

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## Adroddiad ar farwolaeth Kim

## Ionawr 2022

**Cadeirydd Annibynnol ac Awdur yr Adroddiad: James Rowlands**

**Cyswllt, Standing Together Against Domestic Abuse**

**Chwefror 2024**



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **RHAGAIR** | **3** |
| **1.1** | **Y Broses Adolygu** | **3** |
| **1.2** | **Cyfranywr i'r Adolygiad** | **5** |
| **1.3** | **Aelodau'r Panel Adolygu a Chyfranogiad Teulu, Ffrindiau, Cydweithwyr, Cymdogion a'r Gymuned Ehangach** | **8** |
| **1.4** | **Cadeirydd yr ALID ac Awdur yr Adroddiad Trosolwg** | **11** |
| **1.5** | **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** | **11** |
| **1.6** | **Cylch Gorchwyl yr Adolygiad** | **13** |
| **2.** | **CANFYDDIADAU** | **14** |
| **2.1** | **Gwybodaeth Gefndirol** | **14** |
| **2.2** | **Crynodeb o'r Gronoleg** | **15** |
| **2.3** | **Cam-drin Domestig** | **20** |
| **3.** | **CASGLIADAU A GWERSI I'W DYSGU** | **25** |
| **3.1** | **Casgliadau** | **25** |
| **3.2** | **Themâu Allweddol a Gwersi a Nodwyd** | **25** |
| **4.** | **ARGYMHELLION** | **28** |
| **4.1** | **Argymhellion i Asiantaethau Unigol (nodwyd gan asiantaethau unigol)** | **28** |
| **4.2** | **Argymhellion y Panel Adolygu (datblygwyd gan y Panel Adolygu)** | **30** |
| **ATODIAD 1: RHESTR TERMAU** | | **33** |




Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

# 1. Rhagair

## 1.1 Y Broses Adolygu

1.1.1 Mae'r adroddiad hwn yn archwilio ymatebion gan asiantaethau a'r gefnogaeth a roddwyd i Kim,[1] preswylydd ym Mro Morgannwg cyn iddi farw drwy hunanladdiad ym mis Ionawr 2022. Cafwyd hyd i Kim yn farw yn ei chartref gan ei mam, Kris,[2] ar ôl marw o anafiadau a achosodd i'w hun.

1.1.2 Roedd Kim wedi bod mewn perthynas ag Ethan[3] ers tua mis Chwefror 2021, er eu bod wedi gwahanu tua diwedd y flwyddyn.

1.1.3 Mae'r Panel Adolygu wedi ystyried beth ddylai statws Ethan fod yn yr adolygiad o ystyried nad yw erioed wedi'i gael yn euog o unrhyw droseddau yn gysylltiedig â cham-drin domestig a bu farw Kim drwy hunanladdiad. Daeth y Panel Adolygu i'r casgliad, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, ei bod yn rhesymol tybio, ar gydbwysedd tebygolrwydd, fod Ethan yn gyfrifol am gam-drin domestig tuag at Kim. Felly, cyfeirir at Ethan fel 'cyflawnwr (honedig)' cam-drin domestig. Mae hyn wedi cael goblygiadau o ran cyhoeddi, y wybodaeth a gasglwyd gan asiantaethau, yn ogystal ag a gysylltwyd ag Ethan ai peidio.

1.1.4 Mae'r Panel Adolygu yn mynegi ei gydymdeimlad â theulu a ffrindiau Kim am eu colled ac yn diolch iddynt am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth i'r broses hon.

1.1.5 Defnyddiwyd y ffugenwau canlynol yn yr adolygiad hwn i ddiogelu manylion adnabod y dioddefwr, partïon eraill, aelodau o'u teuluoedd, a'r cyflawnwr:

| Enw | Perthynas â'r dioddefwr: |
|---|---|
| Kim | Dioddefwr |
| Ethan | Partner / Cyflawnwr (Honedig) |
| Kevin | Partner / Cyflawnwr Blaenorol |
| Kris | Mam |
| Ava | Cymydog |
| Mia | Cymydog |

1.1.6 Teulu Kim a ddewisodd y ffugenwau ar gyfer Kim a Kris, gyda ffugenwau eraill wedi'u dewis gan y Cadeirydd gyda chytundeb y teulu.

[1] Nid ei henw go iawn.

[2] Nid ei henw go iawn.

[3] Nid ei enw go iawn.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

1.1.7 Mae'r Panel Adolygu wedi argymell, yn absenoldeb euogfarn droseddol ac er mwyn diogelu preifatrwydd teulu Kim, mai dim ond y Crynodeb Gweithredol sy'n cael ei gyhoeddi.

1.1.8 Ni chynhaliwyd treial troseddol yn yr achos hwn, er bod marwolaeth AG wedi'i chyfeirio at Grwner EF a gofnododd dyfarniad o farwolaeth drwy hunanladdiad ym mis Mawrth 2023.

1.1.9 Sefydlwyd Adolygiadau Lladdiadau Domestig (ALlDau) o dan Adran 9(3), Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 a dylid eu cynnal yn unol â Chanllawiau Statudol Amlasiantaethol Rhagfyr 2016 ar gyfer Cynnal Adolygiadau Lladdiadau Domestig ('y canllawiau statudol' o hyn ymlaen).

1.1.10 Mae'r canllawiau statudol yn nodi: "Os yw'r dioddefwr wedi cymryd ei fywyd ei hun (hunanladdiad) a bod yr amgylchiadau'n peri pryder, er enghraifft os yw'n dod i'r amlwg bod ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol wedi digwydd yn y berthynas, dylid cynnal adolygiad… Nid yw adolygiadau'n ymwneud â phwy sydd ar fai" (Paragraff 18). O ystyried amgylchiadau marwolaeth Kim trwy hunanladdiad, comisiynwyd Adolygiad Lladdiad Domestig (ALlD) ond fe'i disgrifir fel 'Adolygiad o Farwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig' ('yr adolygiad' o hyn ymlaen).

1.1.11 Mae'r adolygiad hwn yn cymhwyso'r diffiniad statudol[4] o ymddygiad camdriniol domestig, sef un digwyddiad neu gwrs o ymddygiad rhwng dau berson sydd â chysylltiad personol. Yng Nghymru, y ddeddfwriaeth berthnasol yw adran 5 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf').

1.1.12 Wrth gynnal yr adolygiad hwn, mae'r Panel Adolygu wedi cael trafferth gyda'r canllawiau cyfyngedig sydd ar gael ynghylch sut i gynnal adolygiad i farwolaeth trwy hunanladdiad, yn enwedig ynghylch yr hyn y mae hyn yn ei olygu o ran rhannu gwybodaeth am gyflawnwr (honedig) y gamdriniaeth ddomestig, neu ymgysylltu ag ef. Mae'r Panel Adolygu wedi ystyried gwneud argymhelliad ar y mater hwn, ond nid yw wedi gwneud hynny, gan fod y Swyddfa Gartref ar hyn o bryd yn gweithio i ddiwygio'r system ALlD, gan gynnwys darparu canllawiau pellach ar ALlDau mewn achosion o hunanladdiad.[5] Nododd y Panel Adolygu hefyd y gwaith sy'n parhau yng Nghymru mewn perthynas â'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS).[6]

1.1.13 Comisiynwyd yr adolygiad hwn gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol leol, Partneriaeth Bro Ddiogelach. Ar ôl derbyn hysbysiad gan Heddlu De Cymru ym mis Ionawr 2022, gwnaed penderfyniad i gynnal adolygiad mewn ymgynghoriad â'r partneriaid statudol sy'n ffurfio Partneriaeth Bro Ddiogelach (h.y., Cyngor Bro Morgannwg, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, y Gwasanaeth

[4] Derbyniodd Deddf Cam-drin Domestig 2021 Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2021: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2021/17/part/1/enacted

[5] Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/tackling-domestic-abuse-plan.

[6] Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.llyw.cymru/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-canllawiau#116851.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

Prawf, ac Iechyd). Yn y dyfodol, anogir Partneriaeth Bro Ddiogelach i fod yn ymwybodol o baragraff 22 y canllawiau statudol, sy'n cynnwys gofyniad i ymgynghori â phartneriaid lleol sydd â dealltwriaeth o ddeinameg trais a cham-drin domestig. Gallai hynny gynnwys, er enghraifft, y gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol lleol.

1.1.14 Yn dilyn hynny, hysbyswyd y Swyddfa Gartref o'r penderfyniad i gynnal yr adolygiad yn ysgrifenedig ym mis Chwefror 2022.

1.1.15 Comisiynwyd Standing Together Against Dometic Abuse ('Standing Together' o hyn ymlaen) i ddarparu Cadeirydd Annibynnol ('y Cadeirydd' o hyn ymlaen) ar gyfer yr adolygiad hwn ym mis Mai 2022. Ym mis Ionawr 2024, cyflwynodd y Cadeirydd ganfyddiadau'r adolygiad i Bartneriaeth Bro Ddiogelach ac, ar ôl cadarnhau'r panel adolygu ym mis Chwefror 2024, cafodd yr adroddiad ei gylchredeg a'i gymeradwyo'n electronig gan y bartneriaeth. Yna cyflwynwyd yr adroddiad gorffenedig gan Bartneriaeth Bro Ddiogelach i Banel Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref ym mis Tachwedd 2024. Ym mis Mehefin 2025, ystyriwyd yr adroddiad gorffenedig gan Banel Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref. Yn yr un mis, derbyniodd Partneriaeth Bro Ddiogelach lythyr gan Banel Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref yn cymeradwyo cyhoeddi'r adroddiad. Bydd y llythyr yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad gorffenedig.

1.1.16 Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn nodi y dylid cwblhau'r adolygiad o fewn chwe mis i'r penderfyniad cychwynnol i sefydlu un. Ni chyflawnwyd yr amserlen hon oherwydd:

- Yr amserlen ar gyfer y cyfarfod panel cyntaf, a osodwyd i ganiatáu i bob asiantaeth gymryd rhan, ac yna cynnydd y cyfarfodydd dilynol (gweler 1.9 isod); ac
- Yr angen i alluogi ymgysylltu â theulu Kim (gweler 1.10 isod).

## 1.2 Cyfranwyr i'r Adolygiad

1.2.1 Gan adlewyrchu cwmpas daearyddol posibl yr adolygiad, cysylltwyd â chyfanswm o 36 o asiantaethau i wirio a oeddynt wedi ymwneud â'r partïon dan sylw yn yr ALlD hwn. O'r rhain, roedd 8 wedi cael cyswllt cyfyngedig yn unig, a chyflwynasant Grynodeb o Ymgysylltu. Fodd bynnag, roedd 9 ohonynt wedi cael cyswllt mwy helaeth a gofynnwyd iddynt gyflwyno Adroddiad Byr neu Adolygiad Rheoli Unigol (ARhU). Paratowyd cronoleg o'r naratif hefyd.

1.2.2 Darparwyd Crynodeb o Ymgysylltu gan yr asiantaethau canlynol. Yn yr achosion hyn, roedd y wybodaeth hon yn ddigonol i lunio crynodeb o'r achos gan fod y cyswllt yn gymharol gyfyngedig.

*<u>Cyngor Bro Morgannwg</u>*

- Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – yn darparu swyddogaethau Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu ar ran Cynghorau Pen-y-bont ar



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

Ogwr, Caerdydd, a Bro Morgannwg (cyflwyniad cyfunol yn cynnwys cwynion am sŵn a lles anifeiliaid).

*Rhondda Cynon Taf*

- Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant
- Bwrdd Iechyd Prifysgol – Gwasanaethau Iechyd Meddwl

*Swydd Northampton*

- East Midlands Ambulance Service NHS Trust

*Cenedlaethol/Arall*

- Avon and Somerset Police
- Gwasanaeth Cyngor ar Feichiogrwydd Prydain (BPAS)[7]
- Heddlu Gwent
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

1.2.3 Roedd yr asiantaethau canlynol wedi cael cyswllt mwy sylweddol neu arwyddocaol, ac mae eu cyfraniadau i'r adolygiad hwn fel a ganlyn:

*Cyngor Bro Morgannwg*

| Asiantaeth | Cyfraniad |
|---|---|
| Gwasanaeth Cydlynydd Atgyfeirio Asesiadau Cam-drin Domestig (CAACD) Awdurdod Lleol Bro Morgannwg[8] | Adroddiad Byr |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) | ARhU a Chronoleg<br><br>(hefyd wedi hwyluso rhannu gwybodaeth gan y Meddyg Teulu 1 a BIP Cwm Taf Morgannwg) |
| Heddlu De Cymru (gan gynnwys gwybodaeth am y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg leol, CAAR[9]) | ARhU a Chronoleg |
| Ffocws Dioddefwyr[10] | Adroddiad Byr a Chronoleg |

[7] Elusen gofal iechyd annibynnol sydd, ers dros 55 mlynedd, wedi bod yn eirioli ac yn gofalu am fenywod a chyplau sy'n penderfynu dod â beichiogrwydd i ben. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.bpas.org/about-bpas/

[8] Wedi'i gyflogi gan Gyngor Bro Morgannwg, mae gwasanaeth CAACD yn derbyn atgyfeiriadau safonol a chanolig gan yr heddlu lle rhoddwyd caniatâd. Bydd y gwasanaeth CAACD yn asesu'r adroddiad, gan dynnu ar unrhyw wybodaeth arall a gedwir gan yr heddlu a gwasanaethau plant, cyn ceisio cysylltu â'r dioddefwr i gynnig cymorth a chyfeirio, gan gynnwys atgyfeirio at wasanaethau lleol eraill.

[9] Goruchwyliwyd gan Fwrdd Gweithredol VAWDASV Caerdydd a'r Fro a Phartneriaeth Bro Ddiogelach.

[10] Darparu cymorth a chefnogaeth i ddioddefwyr troseddau yn Ne Cymru. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.ffocwsdioddefwyrdecymru.org.uk/



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) | Adroddiad Byr a Chronoleg |

*Swydd Northampton*

| Asiantaeth | Cyfraniad |
|---|---|
| Northampton General Hospital NHS Trust (NGH) | Adroddiad Byr a Chronoleg |
| Northamptonshire Healthcare NHS Foundation Trust (NHFT) | Adroddiad Byr a Chronoleg |
| Heddlu Swydd Northampton | ARhU a Chronoleg |
| Voice For Victims and Witnesses,[11] gan gynnwys y Sunflower Centre[12] (a gwybodaeth am y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg Ieol, CAAR) | Adroddiad Byr a Chronoleg |

1.2.4 Cysylltodd y Panel Adolygu hefyd â'r asiantaethau canlynol, a ddarparodd ARhU ac Adroddiad Byr yn y drefn honno, yn ogystal â Chronolegau. Ni ymunodd yr un o'r asiantaethau hyn â'r Panel Adolygu, ond rhoddwyd cyfle iddynt weld a rhoi sylwadau ar adrannau perthnasol yr adroddiad:

- Y Cwmni Adloniant Oedolion,[13] sy'n gweithredu yn y diwydiant rhyw, yr oedd Kim yn ymwneud ag ef fel perfformiwr llawrydd, fel arfer yn gwneud shifftiau gartref. Mae'r Cwmni Adloniant Oedolion yn disgrifio ei fusnes fel un sy'n darparu llwyfan i unigolion ymddangos ar y teledu ac ar-lein i ryngweithio ag aelodau o'r cyhoedd.
- Fel rhan o'r cais hwn am wybodaeth, gwnaed gwiriadau hefyd gyda gwasanaeth cymorth yn y diwydiant a ddefnyddir gan y Cwmni Adloniant Oedolion (Pineapple Support[14]), a gadarnhaodd nad oedd wedi cael cysylltiad â Kim.
- Yr Asiantaeth Gosod y rhentwyd yr eiddo lle'r oedd Kim yn byw drwyddi.

1.2.5 Yn olaf, o ystyried pwysigrwydd cŵn Kim iddi, gwnaed ymdrechion i nodi sefydliadau a allai fod wedi cael cysylltiad â Kim yn hyn o beth, gan gynnwys y Dogs Trust a'r RSPCA. Yn ystod y gwaith cwmpasu, ni adroddodd y naill na'r llall am unrhyw gyswllt â Kim.

---

[11] Gwasanaeth cyfrniachol **am ddim** yw Voice, sy'n cynnig cymorth i unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan drosedd, digwyddiadau tân sy'n newid bywyd a gwrthdrawiadau traffig difrfirol yn Swydd Northampton. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.voicenorthants.org

[12] Mae'r Sunflower Centre yn cael ei ariannu drwy bartneriaeth ac mae'n darparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.voicenorthants.org/about-voice-northants/sunflower-centre/

[13] Newidiwyd yr enw i ddiogelu hunaniaeth Kim.

[14] Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://pineapplesupport.org



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

1.2.6 Ysgrifennwyd yr ARhUau gan awduron nad oeddynt ag unrhyw gysylltiad â rheoli'r achos neu ddarparu'r gwasanaeth dan sylw.

## 1.3 Aelodau'r Panel Adolygu a Chyfranogiad Teulu, Ffrindiau, Cydweithwyr, Cymdogion a'r Gymuned Ehangach

1.3.1 Aelodau'r Panel Adolygu oedd:

| Enw | Teitl y Swydd | Asiantaeth |
|---|---|---|
| Anita Lindsay | Rheolwr Llywodraethu Clinigol a Gwella Ansawdd dros Gamddefnyddio Sylweddau | BIP Caerdydd a'r Fro |
| Alice Fairman | Ymgynghorydd Nyrsio Diogelu | BIP Caerdydd a'r Fro |
| Benedicte Lepine | Rheolwr Polisi Diogelwch Cymunedol | Diogelwch Cymunedol Awdurdod Lleol Bro Morgannwg |
| Beth Aynsley | Rheolwr Annibynnol Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed | Heddlu De Cymru |
| Ceri Fowler | Arweinydd Rhanbarthol dros Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio (De Cymru) | Wedi'i gynnal gan BIP Caerdydd a'r Fro a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru |
| Deborah Gibbs | Prif Swyddog Diogelwch Cymunedol | Diogelwch Cymunedol Awdurdod Lleol Bro Morgannwg |
| Fiona Campbell | Prif Swyddog Gweithredol | Voice For Victims and Witnesses / Sunflower Centre |
| Gwenan Jones-Parry | Uwch Arbenigwr Diogelu | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Jessica Rees | Rheolwr Ardal dros Gymorth i Ddioddefwyr | Ffocws Dioddefwyr |
| Julie Grady | Rheolwr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) | Diogelwch Cymunedol Awdurdod Lleol Bro Morgannwg |
| Kevin Fagan | Rheolwr Diogelwch Cymunedol | West Northants CSP |
| Leoni Oxenham | Swyddog Datblygu Cenedlaethol (Cymru) a Dirprwy Arweinydd Diogelu | Church Army (The Amber Project)[15] |

[15] Prosiect Church Army sy'n cefnogi pobl ifanc 14-25 oed yng Nghaerdydd a'r ardaloedd cyfagos sy'n cael profiad o hunan-niweidio. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.amberproject.org.uk. Wedi'i gynnwys ar y Panel Adolygu i gynnig arbenigedd.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

| | | |
|---|---|---|
| Linda Woodley | Rheolwr Gweithrediadau - Diogelu | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Bro Morgannwg |
| Mike Ingram | Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu a Gwasanaethau Cymunedol | Gwasanaethau Tai Awdurdod Lleol Bro Morgannwg |
| Natasha James | Rheolwr Gweithrediadau | Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant Awdurdod Lleol Bro Morgannwg |
| Nick Peters | Ditectif Arolygydd | Heddlu Northampton |
| Nicole Devonish | Rheolwr Tîm Diogelu Oedolion | Gofal Cymdeithasol Oedolion Awdurdod Lleol Bro Morgannwg |
| Steven Pope | Nyrs Arwain dros Ddiogelu Oedolion | NHFT |
| Vicky Friis | Prif Swyddog Gweithredol | Gwasanaeth Cam-drin Domestig y Fro |
| Victoria Shaw | Nyrs Gyswllt dros Ddiogelu Oedolion | NGH |

1.3.2 Yn ogystal, gweithredodd Dr Katie Thorlby, Rheolwr Ymchwil ac Effaith i Beyond the Streets,[16] fel cyfaill beirniadol i'r Panel Adolygu.

1.3.3 Roedd aelodau'r Panel Adolygu yn meddu ar y lefel briodol o arbenigedd ac roeddent yn annibynnol, heb unrhyw gyfrifoldebau fel rheolwr llinell uniongyrchol i unrhyw un a oedd yn gysylltiedig â'r achos.

1.3.4 Cyfarfu'r Panel Adolygu bedair gwaith i gyd, gyda chyfarfod cyntaf y Panel Adolygu ar 22 Medi 2022. Cynhaliwyd cyfarfodydd dilynol ar 10 Mawrth 2023 a 16 Mehefin 2023, lle cafodd yr adroddiad drafft cyntaf ei rannu. Dosbarthwyd drafft diwygiedig o'r adroddiad i gael adborth a sylwadau electronig ym mis Medi 2023, gyda chyfarfod terfynol yn cael ei gynnal ar 25 Hydref 2023. Wedi hynny, ar ôl ei gwblhau a chyfnod o amser i ganiatáu i'r teulu ymgysylltu, dosbarthwyd yr adroddiad a'i lofnodi'n electronig ym mis Chwefror 2024.

1.3.5 Roedd teulu Kim yn rhan o'r adolygiad,

- Pan benodwyd y Cadeirydd ym mis Mai, nid oedd Partneriaeth Bro Ddiogelach wedi hysbysu'r teulu am y penderfyniad i gynnal adolygiad. Yn y dyfodol, dylai Partneriaeth Bro Ddiogelach fod yn ymwybodol o'r canllawiau statudol paragraff 25, sy'n cynnwys gofyniad i hysbysu teulu am y penderfyniad i gomisiynu adolygiad.

[16] Yn gweithio gyda menywod sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://beyondthestreets.org.uk



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

- O ganlyniad, cytunwyd y byddai llythyr hysbysu ar y cyd yn cael ei anfon, gyda hwn yn cael ei rannu â mam Kim (Kris) ym mis Mehefin 2022 trwy Heddlu De Cymru,[17] ynghyd â thaflen y Swyddfa Gartref, yn ogystal â gwybodaeth am Eiriolaeth yn Dilyn Cam-drin Domestig Angheuol (AAFDA).[18]
- Cysylltodd y Cadeirydd â Kris ym mis Chwefror 2023, er bod ymdrechion wedi bod i wneud hynny, a chysylltiad rhwng y Cadeirydd a'r swyddog sy'n gyfrifol am ymchwiliad (SSG), cyn y dyddiad hwn. Ar ôl cael trafodaeth gychwynnol, gan gynnwys esbonio'r broses adolygu a'r gwahanol ffyrdd y gallai Kris fod yn rhan o'r broses, sicrhaodd y Cadeirydd ganiatâd gan Kris am atgyfeiriad at AAFDA, a ddarparodd gefnogaeth wedi hynny.
- Rhannodd Kris wybodaeth gyda'r Cadeirydd am Kim ac, ym mis Gorffennaf 2023, cyfarfuant i drafod Kim, ei bywyd, a'i phrofiadau. Darparwyd cofnod o'r drafodaeth hon i Kris, a chytunodd ei fod yn gywir. Adolygwyd y Cylch Gorchwyl hefyd.
- Rhannodd y Cadeirydd wybodaeth gyda Kris am y cyfleoedd i aelodau eraill o'r teulu fod yn rhan o'r adolygiad, ond eglurodd Kris nad oeddent yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan, a hi fyddai'n cynrychioli'r teulu. Trafododd y Cadeirydd a Kris gysylltu â ffrindiau Kim hefyd, ond dywedodd Kris, tra bod Kim gydag Ethan, nad oedd hi wedi treulio llawer o amser gyda phobl eraill ac nad oedd yn teimlo ei bod hi'n gallu rhoi unrhyw gyflwyniadau.
- Gyda'u cytundeb, rhannwyd yr Adroddiad Trosolwg drafft gyda'r teulu ym mis Rhagfyr 2023. Ymatebodd Kris ei bod hi'n hapus gyda'r adroddiad ac ni roddodd unrhyw adborth ychwanegol. Cytunodd Kris i ddarparu portread ysgrifenedig i ddechrau, fodd bynnag, er y cysylltwyd â hi ar gamau priodol drwy gydol y broses i annog ymgysylltiad, dewisodd yn y pen draw beidio â chymryd rhan ymhellach.
- Cynigiwyd cyfle i Kris gyfarfod â'r Panel Adolygu ond dewisodd beidio â gwneud hynny.
- Bydd copi terfynol o'r Adroddiad Trosolwg hefyd yn cael ei ddarparu i Kris.

1.3.6 Mewn perthynas ag Ethan:

- Fel y nodwyd yn 1.1.4, ystyriodd y Panel Adolygu statws Ethan yn yr adolygiad. Roedd hyn yn cynnwys ystyried a ddylid gwahodd Ethan – fel y cyflawnwr (honedig) – i gymryd rhan yn yr adolygiad. Wrth wneud y penderfyniad hwn, ceisiodd y Panel Adolygu gydbwyso buddiannau Ethan (gan gynnwys a oedd ganddo hawl i gael gwybod am yr adolygiad, yn ogystal â chael cyfle i gyfrannu) ochr yn ochr â phryderon lles (gan gynnwys i Ethan ei hun, yn ogystal â'r effaith bosibl ar deulu Kim).

[17] Gan fod Kim wedi marw trwy hunanladdiad, nid oedd Swyddog Cyswllt Teuluol, ond hwyluswyd hyn trwy'r Swyddog yn yr Achos.

[18] Mae AAFDA yn darparu cymorth cyfoedion emosiynol, ymarferol ac arbenigol i'r rhai sy'n cael eu gadael ar ôl yn dilyn dynladdiad domestig. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://aafda.org.uk



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

- Ystyriwyd y mater hwn dros sawl cyfarfod cyn i'r Panel Adolygu benderfynu peidio â chysylltu ag Ethan, i raddau helaeth oherwydd diffyg canllawiau ynghylch sut i gynnwys cyflawnwyr honedig mewn adolygiad o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.
- O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, cytunodd y Panel Adolygu hefyd na ddylid cysylltu ag eraill a oedd yn adnabod Ethan.

1.3.7 Hoffai'r Cadeirydd ddiolch i bawb a gyfrannodd eu hamser, eu hamynedd a'u cydweithrediad i'r adolygiad hwn.

## 1.4 Cadeirydd yr ALID ac Awdur yr Adroddiad Trosolwg

1.4.1 Cadeirydd ac awdur yr adolygiad hwn yw James Rowlands, Cyswllt i Standing Together. Mae James yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig ac yn Gynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA), ac mae wedi gweithio mewn amrywiaeth o swyddi rheng flaen a strategol yn y sector cam-drin domestig ers 2004. Mae James wedi derbyn hyfforddiant Cadeirydd Adolygiad Lladdiad Domestig gan Standing Together ac mae wedi cadeirio ac awduro 18 ALID blaenorol.

1.4.2 Mae Standing Together yn elusen yn y DU sy'n dod â chymunedau ynghyd i roi terfyn ar gam-drin domestig. Ein nod yw gweld pob ardal yn y Deyrnas Unedig yn mabwysiadu'r Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig (YCC).[19] Mae'r YCC yn seiliedig ar yr egwyddor nad oes gan unrhyw asiantaeth na gweithiwr proffesiynol ddarlun cyflawn o fywyd goroeswr cam-drin domestig, ond bydd gan lawer ohonynt fewnwelediadau sy'n hanfodol i'w diogelwch. Mae'n hollbwysig bod asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd mewn modd effeithiol a systematig i wella diogelwch goroeswyr, dwyn cyflawnwyr i gyfrif, ac yn y pen draw atal lladdiadau domestig. Mae Standing Together wedi bod yn rhan o'r broses Adolygiad Lladdiad Domestig ers ei sefydlu, gan gadeirio dros 90 o adolygiadau ledled Cymru a Lloegr o 2013 hyd heddiw.

1.4.3 *Annibyniaeth*: Nid oes gan James unrhyw gysylltiad â Bro Morgannwg, Partneriaeth Bro Ddiogelach nac unrhyw un o'r asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r achos hwn.

## 1.5 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

1.5.1 Mae'r Cadeirydd a'r Panel Adolygu wedi ystyried y nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o ran oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol yn ystod y broses adolygu.

1.5.2 Drwy gydol yr adolygiad, nododd y Panel Adolygu fod angen rhoi ystyriaeth benodol i'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

[19] Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.standingtogether.org.uk/ccr-network.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

- *Oedran:* Ar adeg ei marwolaeth roedd Kim yn 24 oed ac, o ganlyniad, cytunodd y Panel Adolygu i ystyried oedran, yn enwedig gan fod cyfraddau hunan-niweidio ymhlith menywod ar eu huchaf rhwng 16 a 24 oed.[20]

- *Anabledd:* Ar ddechrau'r adolygiad, nodwyd bod Kim wedi profi cyfnodau o salwch meddwl, a chytunodd y Panel Adolygu i ystyried hyn. Ystyrir cyflwr iechyd meddwl yn anabledd os yw'n cael effaith hirdymor ar weithgarwch dyddiol arferol rhywun. Diffinnir hyn o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nid oedd gan Ethan unrhyw anabledd hysbys.

- *Ailbennu Rhywedd*: Credir bod Kim ac Ethan ill dau wedi uniaethu â'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni.

- *Priodas a Phartneriaeth Sifil:* Nid oedd Kim nac Ethan yn briod nac mewn partneriaeth sifil.

- *Beichiogrwydd a Mamolaeth:* Mae tua 30% o achosion o gam-drin domestig yn dechrau yn ystod beichiogrwydd, tra bod 40–60% o fenywod sy'n profi cam-drin domestig yn cael eu cam-drin yn ystod beichiogrwydd.[21] Ni nodwyd bod hyn yn berthnasol yn achos Kim ac Ethan.

- *Hil:* Roedd Kim ac Ethan yn Gymry Gwyn.

- *Crefydd neu Gred*: Ni rannwyd unrhyw wybodaeth gyda'r Panel Adolygu a fyddai'n awgrymu bod crefydd neu gred yn arwyddocaol yng nghyd-destun yr adolygiad hwn.

- *Rhyw:* Dylid bob amser rhoi ystyriaeth arbennig i ryw, oherwydd natur rhyweddol cam-drin domestig. Mae marwolaethau trwy hunanladdiad a ddatgelir yn gyson â'r patrwm hwn o erledigaeth ar sail rhywedd, gyda menywod sy'n marw trwy hunanladdiad yn aml wedi profi cam-drin domestig.[22] Amcangyfrifir bod nifer y menywod sy'n lladd eu hunain o ganlyniad i gam-drin domestig yn fwy na'r nifer sy'n cael eu lladd gan eu partneriaid agos. Mae astudiaethau wedi dangos bod bron i 30 o fenywod yn ceisio cyflawni hunanladdiad bob dydd oherwydd eu bod wedi profi cam-drin domestig. Amcangyfrifir hefyd bod tair menyw bob wythnos yn lladd eu hunain.[23]

- *Cyfeiriadedd Rhywiol:* Credir bod Kim ac Ethan ill dau'n uniaethu'n heterorywiol.

1.5.3 Ystyriodd y Panel Adolygu yr iaith Gymraeg hefyd, a nododd fod Kim yn siarad Saesneg.

---

[20] Samariaid (dim dyddiad) *Research briefing gender and suicide*. Ar gael yn: https://www.samaritans.org/about-samaritans/research-policy/gender-and-suicide/ (Cyrchwyd ar 30 Awst 2023).

[21] Friend. J (1998), 'Responding to violence against women: a specialist's role', Erthygl Olygyddol, Hospital Medicine, Medi, Cyfrol 59, Rhif 9, tt. 98-99. https://safelives.org.uk/policy-evidence/cry-health/idvas-maternity-units (Cyrchwyd ar 30 Awst 2023).

[22] Monckton-Smith, J., Siddiqui, H., Haile, S., a Sandham, A. (2022) *Building a temporal sequence for developing prevention strategies, risk assessment, and perpetrator interventions in domestic abuse related suicide, honour killing, and intimate partner homicide*. Ar gael yn: https://eprints.glos.ac.uk/10579/ (Cyrchwyd ar 30 Awst 2023).

[23] SafeLives. (2021) *How widespread is domestic abuse and what is the impact*? Ar gael yn: https://safelives.org.uk/policy-evidence/about-domestic-abuse/how-widespread-domestic-abuse-and-what-impact.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

## 1.6 Cylch Gorchwyl yr Adolygiad

1.6.1 Yn y cyfarfod cyntaf, rhannodd y Panel Adolygu wybodaeth am gyswllt asiantaethau â'r unigolion dan sylw, ac o ganlyniad, penderfynodd mai'r cyfnod o fis Ionawr 2021 hyd at ddyddiad marwolaeth Kim fyddai'n cael ei adolygu. Dewiswyd yr amserlen hon oherwydd bod y cyfnod hwn yn cwmpasu'r berthynas rhwng Kim ac Ethan. Yn ogystal, cytunwyd i ystyried cyswllt hanesyddol ag asiantaethau cyn y cyfnod hwn lle bo'n berthnasol, gyda ffocws penodol ar y cyswllt yn Swydd Northampton.

1.6.2 *Trywyddau Ymholi Allweddol:* Ystyriodd y Panel Adolygu'r materion cyffredinol fel y'u nodwyd yng nghanllawiau statudol 2016 a nododd ac ystyriodd y materion achos-benodol canlynol:

- Y cyfathrebu, y gweithdrefnau a'r trafodaethau a gynhaliwyd o fewn a rhwng asiantaethau.
- Y cydweithrediad rhwng gwahanol asiantaethau a oedd yn gysylltiedig â Kim ac Ethan [a'r teulu ehangach].
- Y cyfle i asiantaethau nodi ac asesu risg cam-drin domestig.
- Ymatebion asiantaethau i unrhyw faterion cam-drin domestig a nodwyd.
- Mynediad sefydliadau at asiantaethau cam-drin domestig arbenigol.
- Y polisïau, y gweithdrefnau a'r hyfforddiant ar gael i'r asiantaethau sy'n ymwneud â materion cam-drin domestig; ac
- Unrhyw dystiolaeth o geisio cymorth, yn ogystal ag ystyried beth allai fod wedi helpu neu rwystro mynediad at gymorth a chefnogaeth.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

# 2. Canfyddiadau

## 2.1 Gwybodaeth Gefndirol

| Y brif bobl y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirir ato/ati yn yr adroddiad fel** | **Perthynas â'r dioddefwr** | **Oedran ar adeg marwolaeth Kim** | **Tras ethnig** | **Ffydd** | **Cenedligrwydd a statws mewnfudo** | **Anabledd** |
| Kim | Dioddefwr | 24 | Gwyn Cymreig | Dim wedi'u nodi | Dinesydd Prydeinig | Dim wedi'u nodi |
| Ethan | Partner / Cyflawnwr (Honedig) | 27 | Gwyn Cymreig | Dim wedi'u nodi | Dinesydd Prydeinig | Dim wedi'u nodi |
| Kevin | Partner / Cyflawnwr Blaenorol | - | - | - | - | - |
| Kris | Mam | - | - | - | - | - |
| Ava | Cymydog | - | - | - | - | - |
| Mia | Cymydog | - | - | - | - | - |

*Y Farwolaeth*

2.1.1 Ar ddiwrnod ym mis Ionawr 2022, cafwyd hyd i Kim yn farw yn ei chartref gan ei mam, Kris. Cysylltodd Kris ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gyntaf, a gysylltodd â Heddlu De Cymru yn dilyn hynny.

2.1.2 *Post-mortem*: Bu farw Kim o anafiadau a achosodd i'w hun, yn benodol asffycsia o ganlyniad i grogi. (Yn unol â chanllawiau ar adrodd am hunanladdiadau, ni ddisgrifir unrhyw wybodaeth bellach am ddull hunanladdiad Kim yma[24]).

*Gwybodaeth Gefndirol am y Dioddefwr a'r Cyflawnwr (Honedig)*

2.1.3 *Yn Ymwneud â'r Dioddefwr:* Roedd Kim yn wyn, yn Gymreig Prydeinig ac nid oedd ganddi unrhyw anabledd hysbys, er bod ganddi hanes o broblemau iechyd meddwl. Roedd Kim yn 24 oed pan fu farw. Roedd Kim yn ymwneud â'r diwydiant rhyw fel

[24] Samariaid (2020) *Media guidelines for reporting suicides*. Ar gael yn: https://media.samaritans.org/documents/Media_Guidelines_FINAL.pdf (Cyrchwyd ar 30 Awst 2023).



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

perfformiwr llawrydd, gan weithio i Gwmni Adloniant Oedolion. Dechreuodd profiadau Kim yn y diwydiant rhyw yn 2017 (pan oedd hi'n 19 oed).[25]

2.1.4 *Yn Ymwneud â'r Cyflawnwr (Honedig):* Roedd Ethan yn wyn, yn Gymreig Prydeinig ac nid oedd unrhyw anabledd hysbys ganddo. Roedd yn 27 oed pan fu farw Kim.

2.1.5 *Crynodeb o'r Berthynas â'r Cyflawnwr (Honedig):* Roedd Kim ac Ethan wedi bod mewn perthynas ers dechrau 2021, a dechreuodd y berthynas rhywbryd rhwng mis Chwefror ac yn ddim hwyrach na mis Mawrth neu Ebrill. Mae statws perthynas Kim ac Ethan yn aneglur, gyda rhai adroddiadau eu bod wedi gwahanu rhwng mis Medi a mis Rhagfyr, er ei bod yn amlwg eu bod yn dal i fod mewn cysylltiad ar ddyddiad marwolaeth Kim.

2.1.6 *Aelodau o'r Teulu a'r Aelwyd:* Nid oedd Kim ac Ethan yn byw gyda'i gilydd, er y byddai Ethan yn aros gyda Kim yn ei llety rhent preifat. Byddai Kim hefyd yn aros gydag Ethan.

2.1.7 Nid oedd gan Kim unrhyw blant ond yn ystod ei bywyd roedd hi'n angerddol am gŵn, ac ar adeg ei marwolaeth roedd ganddi ddau gi anwes y dywedodd ei mam (Kris) eu bod "fel plant iddi". Pan fu farw Kim, dechreuodd Kris ofalu am y cŵn.

2.1.8 Roedd Kim yn un o bump o blant. Nid oedd ganddi gysylltiad â'i thad. Mae brodyr a chwiorydd Kim sy'n dal yn fyw, yn ogystal â'i mam, wedi cael eu heffeithio'n fawr gan ei marwolaeth.

## 2.2 Crynodeb o'r Gronoleg

2.2.1 Cytunodd y Panel Adolygu, gan adlewyrchu'r Cylch Gorchwyl, i ganolbwyntio ar y cyfnod o 2021 (pan gyfarfu Kim ac Ethan), gan grynhoi'r cyswllt cyn y dyddiad hwnnw a, thrwy wneud hynny, canolbwyntio ar berthynas flaenorol Kim a'i phrofiadau o gam-drin domestig yn Swydd Northampton (gyda Kevin). Roedd y Panel Adolygu hefyd yn ymwybodol o oedran cymharol ifanc Kim, gan ei bod yn 24 oed pan fu farw.

2.2.2 Yn ogystal, wrth lunio'r gronoleg, mae'r Panel Adolygu wedi cael ei gyfyngu o ran y darlun y gall ei greu o Ethan oherwydd y penderfyniad i beidio â chysylltu ag ef (gweler 1.1.4 am grynodeb). Dim ond lle mae'n uniongyrchol berthnasol i Kim y mae gwybodaeth am Ethan wedi'i chynnwys.

2.2.3 Yn 2019, roedd Kim yn hysbys i asiantaethau yng Nghymru a Swydd Northampton, gan ei bod hi'n byw yn Swydd Northampton yn bennaf ond yn ymweld ac yn aros gyda theulu yng Nghymru yn rheolaidd. Roedd cyswllt sylweddol y flwyddyn honno yn cynnwys cyswllt â gwasanaethau iechyd yn Ne Cymru, yn ymwneud â gorddos bwriadol a thriniaeth ddiweddarach ar gyfer mân anafiadau pan oedd Kim wedi bod yn feddw ac wedi cymryd cocên. Yn ystod y cysylltiadau hyn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod cam-drin domestig neu hunan-niweidio wedi cael eu hystyried.

2.2.4 Yn 2020, roedd Kim yn dal i fyw yn Swydd Northampton ac roedd ei chysylltiad â gwasanaethau yn ymwneud â'i phrofiadau o gamdriniaeth gan Kevin. Ym mis Chwefror, cysylltodd Kim â Heddlu Swydd Northampton, ac arweiniodd hyn at ymchwiliad i honiadau o gam-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad gorfodaethol a

[25] Caiff iaith sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw ei thrafod yn benodol yn Adran 5.1.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

rheolaethol. Fodd bynnag, yn y pen draw, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach gan fod Kim wedi gwrthod gwneud datganiad, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth arall i gefnogi ymchwiliad troseddol.

2.2.5 Mewn perthynas â'r honiadau hyn:

- Roedd Kim hefyd wedi cael cyswllt ag Ysbyty Cyffredinol Kettering ac, wedi hynny, y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cyswllt Acíwt (ALMHS) a ddarperir gan NHFT.[26] Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod cam-drin domestig wedi cael ei ystyried ymhellach, er bod yr atgyfeiriad gwreiddiol wedi'i wneud o ganlyniad i ddigwyddiad a oedd wedi cael ei adrodd i'r heddlu.
- Atgyfeiriwyd Kim at Voice for Victims and Witnesses, gan sbarduno ymdrechion i gysylltu â hi. Roedd y cyswllt hwn yn aflwyddiannus ond sbardunodd atgyfeiriad at y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR) lleol.

2.2.6 Ym mis Mawrth 2020, trafododd cyfarfod CAAR achos Kim. Er bod y CAAR wedi nodi rhai risgiau ac wedi cytuno ar gamau gweithredu, roedd y rhain yn gyfyngedig. Yn ogystal, er nad oedd Voice for Victims and Witnesses wedi gallu cysylltu â Kim ar yr adeg honno, yn y CAAR, cytunwyd ar hyn fel cam gweithredu, ond ni chwblhawyd hyn wedi hynny.

2.2.7 Ym mis Ebrill 2020, aeth Kevin i gyfeiriad Kim ac, ar ôl gwrthod gadael, bygythiodd ac ymosododd arni. Dim ond ar ôl ychydig ddyddiau y llwyddodd Kim i ddianc a chysylltu â'r heddlu. Wedi hynny, cyhuddwyd Kevin o ymosod drwy guro a difrod troseddol, a chafodd ei gadw yn y ddalfa. Yna cafodd ei ryddhau gan y llys ar fechnïaeth gydag amodau mechnïaeth i beidio â chysylltu â Kim ac i beidio â mynd i Northampton.

2.2.8 O ganlyniad i'r cyswllt hwn, atgyfeiriwyd Kim eto at Voice for Victims and Witnesses. Arweiniodd hyn at gyswllt llwyddiannus â Kim, er iddi wrthod cefnogaeth wedyn. Serch hynny, gwnaed atgyfeiriad CAAR pellach.

2.2.9 Cyn i'r ail gyfarfod CAAR gael ei gynnal, gwelodd swyddog heddlu o Heddlu Swydd Northampton Kevin yn mynd tuag at gartref Kim. Cafodd ei arestio wedyn a'i gadw yn y ddalfa am dorri mechnïaeth.

2.2.10 Yn yr ail CAAR, nodwyd risgiau pellach, a chytunwyd ar gamau gweithredu, er nad oedd y rhain yn gynhwysfawr.

2.2.11 Wedi hynny, roedd Voice for Victims and Witnesss mewn cysylltiad â Witness Care ynglŷn â threial a dedfrydu Kevin. Er bod Kim wedi gwrthod cefnogaeth barhaus, roedd y cyswllt hwn yn golygu, er enghraifft, fod dymuniadau Kim ynghylch gorchymyn atal wedi cael eu rhannu. Yn dilyn hynny, dedfrydwyd Kevin i Orchymyn Cymunedol, gyda Gorchymyn Atal o 12 mis gydag amodau i beidio â chysylltu â Kim.

---

[26] Mae ALMHS yn helpu pobl ag anghenion iechyd meddwl sy'n mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu sy'n gleifion mewnol a'r rhai sydd ag anghenion iechyd corfforol sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl. Am ragor o wybodaeth, gweler: https://www.nhft.nhs.uk/acuteliaison/.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

2.2.12 Ym mis Mehefin 2020, Kim symudodd Kim yn ôl i Gymru, ac yn y pen draw rhentodd eiddo yn breifat ym Mro Morgannwg. Roedd cyswllt arwyddocaol yn y cyfnod hwn yn cynnwys cyswllt rhwng Kim a:

- Meddyg teulu, a oedd yn ymwybodol o'r cam-drin domestig ond na archwiliodd i hyn ymhellach. Roedd hyn yn gysylltiedig â Kim yn ailddechrau defnyddio meddyginiaeth gwrth-iselder.
- Heddlu De Cymru, a oedd wedi derbyn cais yn ymwneud â chais Cynllun Datgelu Trais Domestig (CDTD) yn ymwneud â Kevin[27] gan Heddlu Swydd Northampton (cytunwyd ar hyn yn yr ail gyfarfod CAAR). Yn dilyn hynny, ar gam, ni symudwyd ymlaen â'r cais CDTD, gan fod Kim wedi datgan ei bod wedi gwahanu oddi wrtho.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a BPAS, sy'n ymwneud â beichiogrwydd a therfynu hwyrach. Yn ystod ei chyswllt â BPAS, ni ddatgelodd Kim unrhyw bryderon ac ni chafodd unrhyw rai eu nodi gan staff, ond siaradodd am ei hiechyd meddwl ac eglurodd fod hyn yn cael ei reoli trwy ei meddyg teulu.

2.2.13 Yn 2021, roedd Kim yn dal i fyw yng Nghymru. Cafodd Kim sawl cyswllt â'i meddyg teulu yn ymwneud â'i meddyginiaeth gwrth-iselder. Ni ddatgelwyd unrhyw bryderon am gam-drin domestig, a dywedodd Kim ei bod wedi cael cefnogaeth dda gan ei theulu.

2.2.14 Dechreuodd perthynas Kim ag Ethan rywbryd rhwng mis Chwefror a mis Mawrth neu Ebrill 2021 fan bellaf.

2.2.15 Ym mis Gorffennaf 2021, gwnaed adroddiad am ymosodiad gan Ethan ym mis Gorffennaf i Heddlu De Cymru. Fodd bynnag, wedi hynny, diwygiodd Kim ei datganiad blaenorol, gan ddweud na allai fod yn siŵr beth ddigwyddodd a'i bod wedi "*tybio*" mai Ethan oedd wedi achosi ei hanaf. Dywedodd Kim hefyd na fyddai'n cefnogi camau pellach. Wedi hynny, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

2.2.16 Yn gysylltiedig â hyn:

- Derbyniodd Kim atgyfeiriad at Victim Focus (gwasanaeth cymorth i ddioddefwyr generig, lle gwneir atgyfeiriadau os nodir bod rhywun wedi dioddef trosedd). Roedd oedi byr wrth gysylltu â Kim oherwydd gwall gweinyddol ar ran Victim Focus. Fodd bynnag, sefydlwyd cyswllt gyda Kim, na ddatgelodd gam-drin domestig blaenorol a dywedodd ei bod yn dymuno aros yn y berthynas â'i phartner, nad oedd am ddwyn cyhuddiad, ac nad oedd yn teimlo'n anniogel. O ganlyniad, caeodd Victim Focus yr achos.
- Atgyfeiriwyd Kim hefyd at wasanaeth y CAACD, a geisiodd gysylltu â Kim ond nad oedd wedi llwyddo gwneud hynny. Gadawyd neges i Kim, ond ni cheisiodd y CAACD gysylltu â hi eto.

---

[27] Mae'r CDTD yn galluogi'r heddlu i ddatgelu gwybodaeth i rywun sy'n dioddef neu a allai ddioddef cam-drin domestig am droseddau cam-drin neu dreisgar blaenorol gan bartner neu gyn-bartner. Gall ceisiadau gael eu gwneud gan yr heddlu neu asiantaethau eraill ('Hawl i Wybod') neu gan y dioddefwr neu drydydd parti perthnasol ('Hawl i Ofyn'). Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-bill-2020-factsheets/domestic-violence-disclosure-scheme-factsheet.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

- Aeth Kim hefyd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yng Nghaerdydd (a ddarperir gan BIP Caerdydd a'r Fro) mewn perthynas â'r ymosodiad a adroddodd hi i Heddlu De Cymru. Yn ogystal â darparu triniaeth feddygol, gofynnodd staff iechyd yn uniongyrchol am gam-drin domestig gan ddefnyddio ffurflen 'Gofyn a Gweithredu'.[28] Ar ôl i Kim ddatgelu cam-drin domestig, cafwyd caniatâd i'w hatgyfeirio at wasanaeth yr Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol Iechyd (HIDVA) – gwasanaeth mewnol a ddarperir gan BIP Caerdydd a'r Fro – yn ogystal ag i rannu cofnodion meddygol gyda Heddlu De Cymru. Cysylltodd yr HIDVA â Kim a gweithio gyda hi i ddatblygu cynllun diogelwch. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnod yn dangos bod DASH RIC wedi'i gwblhau nac unrhyw dystiolaeth bod camau pellach wedi'u hystyried, e.e. atgyfeiriad CAAR. Nid oedd ychwaith unrhyw gyswllt â gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr fel Victim Focus neu'r arbenigwr cam-drin domestig cymunedol (Gwasanaethau Cam-drin Domestig y Fro). Wedi hynny, roedd sawl ymgais i gysylltu â Kim yn aflwyddiannus, a chaewyd yr achos.

2.2.17 Ym mis Awst 2021, cysylltodd un o gymdogion Kim – Ava – â'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir gyda phryderon ynglŷn ag "*ymladd domestig bob nos"* a bod Kim a'i phartner yn "*sgrechian ar ei gilydd*", yn ogystal â phryder ychwanegol yn ymwneud â rhagor o aflonyddwch gan fod ci wedi'i gloi allan o'r eiddo yn ystod yr ymladd a'i fod yn cyfarth. Rhoddwyd cyngor i Ava, gan gynnwys ar sut i fonitro'r sŵn (gan ddefnyddio'r Noise App), ac fe'i cynghorwyd i gysylltu â'r heddlu ynglŷn â'r pryderon cam-drin domestig. Anfonwyd llythyr safonol at Kim – wedi'i gyfeirio at 'y meddiannydd' – ynglŷn â chyfarth y ci. Ni ymatebodd Kim, ac oherwydd na dderbyniwyd unrhyw gwynion pellach gan Ava, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

2.2.18 Cysylltodd Ava ag asiant gosod tai Kim hefyd i rannu ei phryderon, a chafodd ei chynghori i ffonio'r heddlu. Yna anfonodd yr Asiant Gosod Tai neges destun at Kim a gadael neges llais, ond ni wnaeth hi ymateb. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

2.2.19 Yn yr un mis, adroddodd cymydog arall bryderon i Heddlu De Cymru hefyd. Er bod swyddogion yr heddlu wedi mynd i'r eiddo, pan gyrhaeddon nhw, nid oedd unrhyw arwydd o unrhyw aflonyddwch a siaradwyd â Kim ac Ethan ar wahân. Cyfaddefodd y ddau eu bod wedi cweryla, ond fe wnaethant wadu unrhyw drais. O ganlyniad, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

2.2.20 Fodd bynnag, gwnaed atgyfeiriad at wasanaeth y CAACD, a wnaeth, ar ôl peth oedi, ymgais gychwynnol i gysylltu ym mis Medi, er nad oedd hyn yn llwyddiannus. Yn dilyn hynny, gadawyd neges i Kim, ond ni cheisiodd y CAACD gysylltu â hi eto.

2.2.21 Ym mis Medi 2021, cysylltodd cymydog arall â Heddlu De Cymru, fel y gwnaeth Ava (am yr eildro). O ganlyniad i hyn, aeth yr heddlu i'r eiddo ddwywaith, a chafodd Ethan ei arestio a'i gyfweld. O ran yr honiadau yn erbyn Ethan, ddiwedd mis Hydref, ar ôl cael

[28] Mae 'Gofyn a Gweithredu' yn cyfeirio at ymholiad targedig ym mhob gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin a thrais rhywiol yng Nghymru. Am ragor o wybodaeth, gweler: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/10-egwyddor-gofyn-a-gweithredu.pdf (Cyrchwyd ar 30 Awst 2023).



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

cyngor gan Wasanaeth Erlyn y Goron, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach oherwydd diffyg tystiolaeth.

2.2.22 Fodd bynnag, yn nodedig, yn ystod y cyfnod yr oedd Ethan ar fechnïaeth, roedd Kim mewn cysylltiad ag ef. Ysgrifennodd Kim: "*How many times did I say to you, I know you're gonna end up killing me you'll end up in prison for my murder!!!*" Ysgrifennodd Kim hefyd: "*I shouldn't be made to feel the bad person for me boyfriend beating me!!!*" Mae'r sgwrs neges testun yn dod i ben gyda'r ddau ohonynt yn trefnu cwrdd, er nad yw'n hysbys a wnaethon nhw hynny neu beidio. (Nodwyd y wybodaeth hon yn ystod yr ymchwiliad ar ôl marwolaeth Kim ac nid oedd yn hysbys i Heddlu De Cymru ar y pryd).

2.2.23 Gan drin y ddwy alwad hyn ar yr un diwrnod fel rhai cysylltiedig, dyma'r trydydd tro i adroddiad gael ei wneud i Heddlu De Cymru yn ymwneud â Kim ac Ethan, ac aseswyd pob un ohonynt fel risg ganolig.

2.2.24 Ddiwedd mis Rhagfyr 2021, cysylltodd Kim â'i meddyg teulu a gofyn am ymgynghoriad ar-lein. Ar y ffurflen ar-lein, ysgrifennodd Kim:

"*My anxiety has become increasingly worse lately. I'm unable to sleep, unable to leave the house for days on end. Constantly overthinking and unable to focus on anything. I've been experiencing really bad panic attacks.*"

2.2.25 Ar y ffurflen, datgelodd Kim rai o'r anawsterau yr oedd hi wedi bod yn eu cael o ran hwyliau isel a chysgu, er na ddatgelodd hunan-niweidio na synio am hunanladdiad.

2.2.26 O ganlyniad i'r sgoriau hyn, ceisiodd meddyg teulu ffonio Kim, ond ni chafwyd ateb. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, trefnodd Kim apwyntiad gyda'r meddyg teulu ar gyfer diwedd mis Rhagfyr. Ni fynychodd Kim yr apwyntiad hwn, ac nid yw'n glir o'r cofnodion a wnaed unrhyw ymdrechion dros y ffôn i gysylltu â Kim ynglŷn â hyn.

2.2.27 Erbyn diwedd y flwyddyn, nid yw statws perthynas Kim ac Ethan yn glir. Er i Kim ddweud wrth Heddlu De Cymru ym mis Medi ei bod hi ac Ethan wedi gwahanu, roeddynt o hyd mewn cysylltiad yn y dyddiau cyn marwolaeth Kim.

2.2.28 Ar ddiwedd y flwyddyn, fel y nodwyd gan Heddlu De Cymru yn ystod eu hymholiadau ar ôl marwolaeth Kim, postiodd Kim ddwywaith ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd y post cyntaf yn cynnwys lluniau o estyniadau gwallt Kim wedi'u tynnu o'i phen a'r pennawd: "*to be told this is normal if you get angry*". Ar yr un diwrnod, postiodd Kim ddau lun ychwanegol a'r testun "*imagine having someone brainwash you so badly for almost a year saying how fat you are on a daily basis! That even being a size 6/8 makes you feel insecure!!"*.

2.2.29 Ym mis Ionawr 2022, cafwyd hyd i Kim yn farw yn ei chartref gan ei mam.

2.2.30 Yn dilyn marwolaeth Kim, nododd Heddlu De Cymru adroddiadau blaenorol o gam-drin domestig a sefydlodd mai Ethan oedd y person olaf i weld Kim yn fyw. Pan gafodd ei gyfweld, dywedodd Ethan fod y berthynas rhyngddo ef a Kim wedi dod i ben ym mis Rhagfyr ond eu bod wedi treulio peth amser gyda'i gilydd.

2.2.31 O ganlyniad i'r wybodaeth hon, ymchwiliodd Heddlu De Cymru i honiadau o ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol ac ymosodiad gan Ethan tuag at Kim. Cafodd Ethan ei



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

arestio i ddechrau, gwadodd yr honiadau ac yna cafodd ei ryddhau ar fechnïaeth. Wedi hynny, cafodd ei ryddhau heb unrhyw gamau pellach.

**Unrhyw Wybodaeth neu Ffeithiau Perthnasol Eraill**

2.2.32 Darparwyd gwybodaeth hefyd gan y Cwmni Adloniant Oedolion yr oedd Kim wedi bod yn gysylltiedig ag ef ers 2017 fel perfformiwr llawrydd. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd Kim mewn cysylltiad â thri aelod o staff, gyda'r rhan fwyaf o'r cyfathrebu'n ymwneud â'i phatrwm gwaith. Yn nodedig, yn 2021, canslodd Kim ei sifftiau, gan ddweud bod hyn oherwydd ei bod hi'n sâl, heb roi esboniad, i wella o lawdriniaeth gosmetig, neu oherwydd ei bod yn poeni am ofal ei chŵn. Ar ddau achlysur, cyfeiriwyd Kim at wasanaeth cymorth yn seiliedig yn y diwydiant (Pineapple Support), er nad yw'n ymddangos iddi fanteisio ar hyn ac ni chafodd hyn ei archwilio ymhellach gan staff y Cwmni Adloniant Oedolion.

## 2.3 Cam-drin Domestig

2.3.1 Yn drasig, ni fydd byth yn bosibl gwybod graddau llawn profiadau Kim. Fodd bynnag, yn ogystal â'r adroddiadau o ymddygiad camdriniol yn ei pherthnasoedd blaenorol (gan gynnwys gan Kevin), mae'n ymddangos bod Kim wedi profi'r canlynol gan Ethan o leiaf:

- *Cam-drin corfforol:* Mae yna adroddiadau o Ethan yn ymosod ar Kim, gan gynnwys achosi anafiadau a oedd angen triniaeth ac, ar achlysuron eraill, o Kim yn rhannu lluniau o gleisiau ac anafiadau eraill. Dywedodd Kim hefyd wrth ei mam (Kris) ac yn ddiweddarach wrth Heddlu De Cymru a staff iechyd fod Ethan wedi ceisio cael gwrthdrawiad wrth yrru car. Adroddodd cymdogion, fel Ava, eu pryderon hefyd. Postiodd Kim hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol am ei phrofiadau, gan gynnwys dweud bod ei chariad yn ei tharo hi ("*beating me*").
- *Gorfodaeth, bygythiadau a bygylu:* Dywedodd Kris ei bod yn teimlo bod Ethan yn ymddwyn yn orfodaethol. Un enghraifft a roddodd oedd achlysur pan ddywedodd Kim na fyddai Ethan yn gadael iddi gysgu.
- *Cam-drin emosiynol ac ynysu:* Dywedodd Kris fod Kim wedi dweud wrth ei brodyr/chwiorydd y byddai Ethan yn galw enwau arni, gan wneud sylwadau negyddol am ei hymddangosiad neu ei phwysau. Postiodd Kim hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol am ei phrofiadau, gan gynnwys disgrifio ei bod wedi cael ei phwylltreisio (*"brainwash"*) am ei phwysau.
- *Cam-drin rhywiol:* Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth gan y Panel Adolygu.
- *Plant a beichiogrwydd:* Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth gan y Panel Adolygu.
- *Cam-drin economaidd:* Er na chanfuwyd unrhyw dystiolaeth benodol gan y Panel Adolygu, roedd adroddiadau gan aelodau'r teulu fod Ethan yn genfigennus o incwm Kim, nad oedd yn fodlon ei bod hi'n gweithio yn y diwydiant rhyw, a'i fod yn "ymyrryd" â'i gwaith. Yn ogystal, er nad yw'n bosibl cysylltu unrhyw achosion o gam-drin corfforol yn uniongyrchol, yn amlwg gallai unrhyw anafiadau a gafodd Kim oherwydd gweithredoedd Ethan fod wedi effeithio ar ei gallu i weithio.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

2.3.2 Roedd y Panel Adolygu hefyd yn teimlo bod sawl ffactor yn arbennig o berthnasol i brofiadau Kim:

- *Ei hoedran*: Roedd Kim yn 24 oed pan fu farw. Pobl iau rhwng 20 a 24 oed yw'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o adrodd am gam-drin domestig.[29] Er nad yw wedi bod yn bosibl archwilio effaith oedran Kim yn benodol, credai mam Kim (Kris) y gallai ei hoedran fod wedi bod yn rhwystr i sylweddoli bod profiadau penodol yn rhai camdriniol a/neu i geisio cymorth, problem a nodwyd mewn ymchwil hefyd.[30]

- *Iechyd meddwl, gan gynnwys tystiolaeth o hunan-niweidio*: Yn ôl adroddiadau gan ei theulu, a gwybodaeth gan y gwasanaethau iechyd, roedd Kim yn byw gydag iselder. Cafodd Kim gymorth a chefnogaeth gan Feddyg Teulu 1, sy'n golygu ei bod wedi cael presgripsiwn ar gyfer gwrthiselyddion, wedi cael adolygiadau o feddyginiaethau, ac wedi cael ei chyfeirio at wasanaethau eraill. Yn ogystal, roedd hwn yn fater parhaus iddi a effeithiodd ar ei bywyd bob dydd. Er enghraifft, roedd Kim wedi canslo sawl sifft gyda'r Cwmni Adloniant Oedolion, ac esboniodd fod hyn oherwydd ei hiechyd meddwl.

- *Defnyddio sylweddau:* Er ei bod wedi'i nodi mewn sawl adroddiad gan asiantaethau gwahanol fod Kim ac Ethan yn defnyddio sylweddau, mae gwybodaeth gymharol gyfyngedig am hyn, ac nid oedd Kim yn hysbys i wasanaethau camddefnyddio sylweddau.

- *Defnyddio anifeiliaid:* O'r adroddiadau a rannwyd gyda'r Panel Adolygu, roedd cŵn anwes Kim yn bwysig iawn iddi. Rhannwyd tystiolaeth gyda'r Panel Adolygu ynghylch sut y gallai partneriaid blaenorol fod wedi defnyddio anifeiliaid i gam-drin, naill ai i frifo neu fygwth Kim drwy ddirprwy neu drwy frifo'r cŵn eu hunain, ac yn ei dro sut y gallai hyn fod wedi effeithio ar hyder Kim yn yr asiantaethau (Heddlu Swydd Northampton yn benodol). Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth gan y Panel Adolygu am fygythiadau neu gam-drin penodol gan Ethan tuag at gŵn anwes Kim. Serch hynny, roedd Kim yn bryderus am eu lles (er enghraifft, roedd yna adroddiadau o Ethan yn cloi'r cŵn y tu allan, ac o Kim yn gofyn i'w mam – Kris – ofalu amdanyn nhw pan oedd hi'n ofidus yn dilyn digwyddiadau gydag Ethan). Yn y cyd-destun hwn, gallai pryderon ynghylch gofal ei chŵn hefyd fod wedi cyfyngu ar allu Kim i gael mynediad at gymorth a chefnogaeth.

2.3.3 Yn olaf, roedd Kim yn ymwneud â'r diwydiant rhyw fel perfformiwr llawrydd. Mae'n bwysig nodi'r wybodaeth gyfyngedig sydd gan y Panel Adolygu i asesu natur profiadau Kim o fewn y diwydiant rhyw (yn gyffredinol, gan gynnwys o'i hoedran ifanc pan ddechreuodd weithio, hyd at ei pherthynas ag Ethan a'i ymateb ef i hyn). Yn ogystal,

---

[29] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) *Domestic abuse victim characteristics, England and Wales: year ending March 2022*. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusevictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2022#age (Cyrchwyd ar 30 Awst 2023).

[30] Barnes, M. *et al.* (2023) 'Young People and Intimate Partner Violence: Experiences of Institutional Support and Services in England', *Journal of Family Violence* [Advance Online].



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

nododd y Panel Adolygu fod yna wahanol farnau ynghylch y Diwydiant Adloniant Oedolion, gan gynnwys terminoleg fel 'gwaith rhyw' a'r sbectrwm o brofiadau y mae'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw yn eu cael (gan gynnwys y rhai sy'n cael profiad cadarnhaol o werthu rhyw, a'r rhai sy'n destun camfanteisio a niwed).[31] Gyda hyn mewn golwg, cytunodd y Panel Adolygu i ganolbwyntio ei ddadansoddiad ar (1) cyd-destun y niwed posibl i Kim a dealltwriaeth o'r diwydiant rhyw, a (2) y Cwmni Adloniant Oedolion yn benodol mewn perthynas ag adnabod ac ymateb i gam-drin domestig.

2.3.4 O ran niwed posibl a dealltwriaeth o'r diwydiant rhyw:

- Roedd cysylltiad Kim â'r diwydiant rhyw yn berthnasol i'r hyn a gredir oedd ymddygiad camdriniol Ethan o ystyried adroddiadau a nododd "nad oedd yn hoff o'r hyn yr oedd hi'n ei wneud am waith" ac y byddai'n "ymyrryd â'i gallu i gyflawni ei gwaith". Mae astudiaeth ddiweddar o 23 o adolygiadau i farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig yn cefnogi'r posibilrwydd y gallai cysylltiad Kim â'r diwydiant rhyw fod wedi golygu ei bod mewn mwy o berygl o gam-drin domestig. Yn yr achosion hyn, nodwyd mewn 17% o achosion fod cenfigen partner y dioddefwr wedi bod yn gysylltiedig â gwaith y dioddefwr yn y diwydiant rhyw.[32]

- Mae hefyd yn ymddangos bod Kim wedi eisiau gadael y diwydiant rhyw, ond nad oedd hi'n gwybod beth i'w wneud, ac mae'n ymddangos ei bod wedi teimlo'n ynysig (ar sail yr hyn a ddywedodd ei mam, Kris, am Kim (h.y. doedd hi ddim yn siarad am ei gwaith yn aml, ac roedd hi'n cadw ei gwaith ar wahân i'w bywyd cartref) ac yn absenoldeb cydweithwyr y gallai'r Panel Adolygu gysylltu â nhw).

- Mae'n werth nodi felly nad oedd unrhyw asiantaeth yn ymwybodol bod Kim yn ymwneud â'r diwydiant rhyw (er enghraifft, cadarnhaodd Heddlu De Cymru nad oedd unrhyw wybodaeth am ei chyflogaeth wedi'i chofnodi ar ei HDCau. Er bod Kim wedi disgrifio ei hun fel model i BPAS, nid oedd ganddynt ragor o wybodaeth am hyn). Nid yw'n bosibl gwybod pam na rannodd Kim y wybodaeth hon gydag asiantaethau, er nad oedd o dan unrhyw rwymedigaeth i wneud hynny. Yn fwy cyffredinol, efallai bod ganddi resymau da am beidio â gwneud hynny, yn enwedig o ystyried ei hamharodrwydd i drafod ei gwaith yn y diwydiant rhyw. Er nad yw'n bosibl gwybod a oedd hyn yn wir i Kim, efallai ei bod hi hefyd wedi bod ofn gwneud hynny: mae ymchwil wedi dangos bod y rheiny sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw yn gallu ofni a/neu brofi stigma gan weithwyr proffesiynol ac asiantaethau.[33]

---

[31] Hester, M., Mulvihill, N., Matolcsi, A., Lanau Sanchez, A., a Walker, S.-J. (2019). *The nature and prevalence of prostitution and sex work in England and Wales today*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/842920/Prostitution_and_Sex_Work_Report.pdf (Cyrchwyd ar 30 Awst 2023).

[32] Hasham, J. and Thorlby, K. (2023) *Lessons Learnt? Domestic Homicide Reviews through a Sex Industry Lens*. Ar gael yn: https://beyondthestreets.org.uk/dhr-report-research/ (Cyrchwyd ar 30 Awst 2023).

[33] Jobe, A., Stockdale, K. and O'Neill, M. (2022) 'Stigma and Service Provision for Women Selling Sex. Findings from Community-based Participatory Research', *Ethics and Social Welfare*, 16(2), pp. 112–128.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

- Gan ystyried hyn i gyd, credai'r Panel Adolygu ei bod yn debygol bod Kim wedi'i hynysu, a nododd fod teimlo'n ynysig yn brofiad cyffredin y mae'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw yn ei wynebu, ac mae gan hynny oblygiadau o ran iechyd meddwl ac o ran cael mynediad at wasanaethau cymorth. Mewn adroddiad diweddar, y tair thema cymorth a nodwyd amlaf oedd (1) Iechyd Meddwl, (2) Teulu, Ffrindiau a Pherthnasoedd, a (3) Mynediad at Wasanaethau Cymorth. Ar ben hynny, thema a oedd yn codi dro ar ôl tro yn yr adroddiad oedd bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth a/neu gred bod y rhain dim ond ar gael i'r rhai sy'n ymwneud â gwerthu rhyw ar y stryd.[34]

2.3.5 Mewn perthynas â'r Cwmni Adloniant Oedolion:

- Er ei bod yn beth cadarnhaol bod Kim wedi cael ei chyfeirio at gymorth mewn perthynas â'i hiechyd meddwl, cydnabu'r cwmni y gellid bod wedi cynnig cymorth yn gynharach ac, mewn cysylltiad â Kim, gallai staff fod wedi siarad â Kim yn ddiweddarach ynglŷn â'u trafodaethau blaenorol, gan gynnwys archwilio a oedd hi wedi defnyddio'r gwasanaeth cymorth yn y diwydiant a/neu a fyddai opsiynau cymorth eraill yn briodol.

- Yn fwy cyffredinol, ni rannwyd unrhyw wybodaeth gan Kim yn ymwneud â phryderon cam-drin domestig yn benodol, ac ni nodwyd pryderon gan staff. Fodd bynnag, cydnabu'r cwmni nad oedd ganddo Bolisi Cam-drin Domestig ac, o ran ystyried risg, roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â phryderon ynghylch cam-drin posibl gan gwsmeriaid.

2.3.6 Mae'r wybodaeth a rennir gan asiantaethau, yn ogystal â theulu Kim, yn rhoi rhyw syniad o brofiadau Kim:

2.3.7 Ymddengys bod profiad Kim o gam-drin domestig wedi bod yn hirdymor, dros sawl perthynas ac, o ran Ethan, yn amlochrog. Ar yr un pryd, er rhywfaint o gyswllt ag asiantaethau (yn Swydd Northampton ac yng Nghymru), ymddengys bod Kim wedi bod yn amharod i ddatgelu i asiantaethau neu ymgysylltu'n barhaus â nhw. Nid yw'n bosibl gwybod y rhesymau dros amharodrwydd Kim, ond credai mam Kim (Kris) y gallai ei phrofiad o gam-drin mewn sawl perthynas fod wedi golygu bod trais a cham-drin wedi cael eu normaleiddio iddi. Ynghyd â'r normaleiddio hwn, efallai bod ffactorau eraill wedi rhwystro Kim rhag ystyried ei phrofiadau yn rhai camdriniol a/neu geisio cymorth. Gallai'r rhwystrau hyn, fel y nodir uchod, fod wedi cynnwys oedran Kim, yn ogystal â phryderon eraill (gan gynnwys amharodrwydd i siarad am ei gwaith yn y diwydiant rhyw, a allai, o ystyried y potensial am lefelau uchel o gamfanteisio a niwed – fel y crynhoir uchod ac fel y nodir mewn ymchwil – hefyd fod wedi cyfrannu at normaleiddio trais a cham-drin).

[34] Collis, G. and Thorlby, K. (2022) *Support Needs of Women Involved in the UK Sex Industry: Learning from Frontline Services*. Ar gael yn: https://beyondthestreets.org.uk/wp-content/uploads/2022/01/Support-needs-of-those-involved-in-the-UK-sex-industry-FINAL-for-publication.pdf (Cyrchwyd ar 30 Awst 2023).



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

2.3.8 Yn fwy cyffredinol, roedd Kim mewn cyswllt â nifer o asiantaethau ar adegau gwahanol ond – fel yr archwilir isod – nid oedd asiantaethau bob amser yn cyfathrebu nac yn cydlynu gyda'i gilydd yn uniongyrchol, neu efallai ei bod hi wedi teimlo nad oeddent wedi'i chefnogi hi'n effeithiol yn y gorffennol.

2.3.9 Gyda'i gilydd, gallai hyn fod wedi effeithio ar sut roedd Kim yn deall ei phrofiadau a'i hopsiynau. Efallai bod hyn wedi golygu bod Kim yn teimlo'n ynysig, er iddi barhau i geisio cefnogaeth gan ei theulu. Mae'n bosibl bod y teimlad hwn o fod yn ynysig wedi bod yn gysylltiedig â'i phenderfyniad i farw drwy hunanladdiad. Mae ymchwil i brofiadau dioddefwyr cam-drin domestig sydd wedi teimlo'n hunanladdol wedi tynnu sylw at ba mor flinederus y gall eu profiadau fod iddynt, yn ogystal ag ymdeimlad o anobaith.[35]

2.3.10 Roedd Kim hefyd yn profi problemau iechyd meddwl parhaus a effeithiodd ar ei bywyd bob dydd. Efallai bod y profiadau hyn hefyd wedi cael eu heffeithio gan ei brwydrau parhaus ynghylch ei chanfyddiad o'i chorff a'i hymddangosiad. Yn ei dro, mae'n ymddangos bod Ethan wedi camfanteisio ar anawsterau Kim ynghylch ei delwedd o'i hun.

[35] The Kent and Medway Suicide Prevention (dim dyddiad) *Highlighting the link between domestic abuse and suicide.* Ar gael yn: https://nspa.org.uk/resource/link-domestic-abuse-and-suicide/ (Cyrchwyd ar 30 Awst 2023).



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

# 3. Casgliadau a Gwersi i'w Dysgu

## 3.1 Casgliadau

3.1.1 Roedd marwolaeth Kim yn drasiedi, ac mae'r Panel Adolygu yn estyn ei gydymdeimlad i'w theulu a'r rhai a oedd yn ei hadnabod.

3.1.2 Mae'r Panel Adolygu wedi ceisio deall profiadau byw Kim ac ystyried y problemau a wynebodd hi i geisio deall amgylchiadau ei marwolaeth trwy hunanladdiad a nodi gwersi perthnasol i'w dysgu. Nid yw'n bosibl dweud pa effaith gafodd perthynas Kim a'i phrofiad o gam-drin ar ei marwolaeth, ond serch hynny mae'n debygol bod y rhain wedi darparu cefndir pwysig i'w phenderfyniad i farw drwy hunanladdiad.

3.1.3 Yn cymhlethu'r adolygiad hwn yw'r ffaith nad yw Ethan, partner Kim a'r cyflawnwr (honedig), erioed wedi'i gael yn euog o unrhyw droseddau yn ymwneud â cham-drin domestig, a bu farw Kim drwy hunanladdiad. Oherwydd hyn, mae'r Panel Adolygu wedi gweithredu yn unol â'r rhagdybiaeth ei bod yn fwy tebygol na pheidio bod Ethan yn gyfrifol am gam-drin domestig tuag at Kim. Cyfeirir at Ethan felly fel cyflawnwr (honedig) y gamdriniaeth ddomestig, er, gan na chysylltwyd ag ef ar gyfer yr adolygiad hwn, roedd y gwersi penodol a ddysgwyd yn gyfyngedig.

3.1.4 Serch hynny, mae gwersi sylweddol wedi'u nodi yn ystod yr adolygiad hwn mewn perthynas â sut y gwnaeth asiantaethau nodi a rheoli risg ac anghenion posibl Kim, a sut y gwnaethant weithio gyda'i gilydd. Er nad yw'n bosibl dweud a allai ymateb gwell fod wedi atal marwolaeth Kim, mae'n hanfodol bod yr asiantaethau a'r partneriaethau priodol yn ystyried y gwersi hyn i ddatblygu a gwella eu hymatebion. Crynhoir hyn isod.

## 3.2 Themâu Allweddol a Gwersi a Nodwyd

3.2.1 Mae'r gwersi a ddysgwyd yn yr achos hwn wedi bod yn benodol i asiantaethau unigol ond hefyd yn croesi ar draws asiantaethau a'r bartneriaeth leol ehangach. Disgrifir y gwersi penodol a ddysgwyd gan asiantaethau unigol yn fanwl ac maent yn cynnwys materion yn ymwneud â pholisi a gweithdrefnau, yn ogystal ag ymateb staff mewn amgylchiadau penodol, yn fewnol ac o ran gweithio amlasiantaethol. Mae'r materion cyffredinol a nodwyd yn croesi ar draws asiantaethau ac yn ymwneud â sawl maes:

3.2.2 *Yn gyntaf, y ddealltwriaeth a'r ymateb i gam-drin domestig:* Yn benodol, mae'r adolygiad hwn wedi nodi ei bod yn ymddangos bod profiad Kim o gam-drin domestig wedi bod yn hirdymor, dros sawl perthynas ac, o ran Ethan, yn amlochrog. Mae'r Panel Adolygu wedi ystyried materion fel oedran cymharol ifanc Kim, ei hiechyd meddwl, yn ogystal ag effaith bosibl gwaith Kim yn y diwydiant rhyw. Mae hefyd yn amlwg y gallai Kim fod wedi teimlo'n ynysig am sawl rheswm er, er enghraifft, bod ganddi gefnogaeth ei theulu.

3.2.3 Mae'r adolygiad hwn hefyd wedi archwilio'r cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a'i effaith ar iechyd meddwl, gan gynnwys hunanladdiad. Er bod y cyfleoedd i ymateb i Kim yn benodol yn gyfyngedig, mae'r gwersi a nodwyd yma yn dystiolaeth bellach o



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

bwysigrwydd gwella dealltwriaeth broffesiynol ac asiantaethol o, ac ymatebion i, gam-drin domestig a'i effaith ar iechyd meddwl a hunanladdiad.

3.2.4 Mater arall yw pwysigrwydd sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei ddeall fel mater tai, gan gynnwys o ran gwasanaethau'r cyngor yn ymateb i faterion fel cwynion am sŵn, ond hefyd y sector tai preifat. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r themâu isod oherwydd, ar ôl cydnabod cam-drin domestig, mae'n bwysig bod asiantaethau'n gallu gweithio gyda'i gilydd a bod hyn yn cael ei gefnogi gan bartneriaeth amlasiantaethol gadarn.

3.2.5 *Yn ail, pwysigrwydd gwaith amlasiantaethol:* Roedd Kim mewn cyswllt â sawl asiantaeth ar wahanol adegau ac mae'r cyswllt hwn wedi'i ddadansoddi, gan nodi arfer da yn ogystal â gwersi i'w dysgu ac argymhellion ar gyfer asiantaethau penodol. Fodd bynnag, nid oedd asiantaethau bob amser yn cyfathrebu nac yn cydlynu â'i gilydd yn uniongyrchol. Mae'n bosibl bod hyn, ynghyd â phrofiad Kim o ymatebion gan asiantaethau – efallai ei bod hi wedi teimlo nad oeddent yn diwallu ei hanghenion – wedi cael effaith ar ei hyder wrth geisio cymorth. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r achos hwn hefyd yn cynnwys ystyried y llwybr at wasanaethau cymorth cam-drin domestig a'u harferion.

3.2.6 *Yn drydydd, pwysigrwydd partneriaethau amlasiantaethol cadarn*: Er bod tystiolaeth o bartneriaethau lleol da, mae'r adolygiad wedi gwneud argymhellion penodol i sicrhau bod strategaethau lleol yn diwallu anghenion oedolion ifanc 18-25 oed, yn mynd i'r afael â'r cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a hunanladdiad, ac yn ystyried materion fel comisiynu rhyw-benodol mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae gwersi hefyd wedi'u nodi ar gyfer prosesau fel y CAAR, ar gyfer prosesau lleol ac i fynd i'r afael â gwendidau mewn goruchwyliaeth genedlaethol.

3.2.7 *Yn bedwerydd*, y tu hwnt i gyfyngiadau arferol adolygiad, mae'r Panel Adolygu wedi ystyried *adroddiadau yn y cyfryngau* am farwolaeth Kim. Mae'n destun gofid bod llawer o'r sylw yn y cyfryngau wedi gwneud cynnwrf ynghylch gwaith Kim yn y diwydiant rhyw. Dylid gwneud gwaith pellach i annog y cyfryngau i adrodd mewn modd sensitif ar farwolaethau drwy hunanladdiad.

3.2.8 Yn ogystal â'r ystod hon o ddysgu, mae arfer da hefyd wedi'i nodi. Er enghraifft, er bod gwersi wedi'u nodi ynghylch trosglwyddiadau CAAR-i-CAAR, mae'n ganmoladwy bod Heddlu Swydd Northampton wedi ceisio sbarduno datgeliad CDTD yn dilyn trafodaeth CAAR. Mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd, er bod gwersi i NGH ac NHFT eu dysgu ynghylch adnabod cam-drin domestig, mae hefyd yn amlwg bod staff iechyd wedi darparu ymateb a oedd yn canolbwyntio ar y claf i anghenion Kim. Roedd gwahanol wasanaethau cam-drin domestig mewn cysylltiad â Kim. Unwaith eto, er bod gwersi i'r asiantaethau hyn hefyd, roedd tystiolaeth hefyd o arfer da, gan gynnwys cynlluniau diogelwch gan Voice for Victims and Witnesses / The Sunflower Centre a HIDVA BIP Caerdydd a'r Fro.

3.2.9 Yn dilyn casgliad yr adolygiad hwn a'i wersi i'w dysgu, mae cyfle i asiantaethau ystyried yr ymateb lleol i gam-drin domestig. Mae hyn yn berthnasol i asiantaethau yn unigol ac



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

ar y cyd. Mae'r Panel Adolygu yn gobeithio y bydd y gwaith hwn yn cael ei ategu gan gydnabyddiaeth bod yr ymateb i gam-drin domestig yn gyfrifoldeb a rennir gan mai mater i bawb yw gwneud y dyfodol yn fwy diogel i eraill.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

# 4. Argymhellion

## 4.1 Argymhellion i Asiantaethau Unigol (wedi'u nodi gan asiantaethau unigol)

4.1.1 Gwnaed yr argymhellion canlynol i asiantaethau unigol gan yr asiantaethau eu hunain yn eu ARhUau.

*Heddlu Swydd Northampton*

4.1.2 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 1:** Heddlu Swydd Northampton i barhau i atgyfnerthu'r neges gyda swyddogion a staff sef, yn unol â'r canllawiau sydd bellach yn statudol ar CDTD, gellir rhoi datgeliadau mewn perthynas â chyn-bartneriaid.

*NGH*

4.1.3 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 1:** Hyfforddiant i’w ddarparu i'r Adran Achosion Brys i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith adrodd a'r asesiadau risg sy’n rhaid eu gwneud ar ôl datgelu neu adnabod cam-drin domestig. Dylai'r hyfforddiant dynnu sylw at yr angen i gyfeirio at yr Heddlu a/neu'r Sunflower Centre ac at y gwasanaeth HIDVA gan gwblhau DASH a/neu hefyd at yr Awdurdod Lleol ar gyfer atgyfeiriad diogelu oedolion neu ddiogelu plant os yw'r claf yn cyrraedd y trothwy.

*NHFT*

4.1.4 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 1:** Dylai’r tîm Diogelu Oedolion/Plant ystyried y dull Ffocws ar y Teulu wrth gyflawni eu hyfforddiant diogelu, naill ai fel rhan o'r hyfforddiant craidd neu fel hyfforddiant ar wahân.

4.1.5 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 2:** Dylai staff ystyried y cyfuniad o edrych, gwrando, gofyn cwestiynau uniongyrchol, gwirio’r wybodaeth, a myfyrio ar y wybodaeth maen nhw wedi'i derbyn.

4.1.6 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 3:** Dylai staff gadw cofnodion o unrhyw gynnydd a dylent deimlo'n hyderus wrth holi'n uniongyrchol lle bo’n briodol. Dylai'r cofnodion fod yn glir ac yn gryno a chynnwys ystyried dull amlasiantaethol.

*Voice For Victims and Witnesses / The Sunflower Centre*

4.1.7 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 1:** Dylai pob IDVA sicrhau bod nodiadau achos yn cynnwys cofnod o'r holl gamau a gymerwyd, ac unrhyw resymeg a rhesymau i gyfiawnhau pam nad oeddent yn gallu cwblhau gweithred allweddol.

*BIP Caerdydd a'r Fro*

4.1.8 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 1:** Dylai HIDVAs sy’n gweithio yn BIP Caerdydd a'r Fro gofnodi manylion y cynllun diogelwch a drafodir gyda'r dioddefwr (os trafodir hynny). Mae hyn er mwyn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu’n briodol ac i sicrhau y gall staff eraill sy'n rhan o’r broses ailadrodd y cynllun diogelwch i’r dioddefwr.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

4.1.9 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 2:** Dylai HIDVAs sy'n gweithio yn BIP Caerdydd a'r Fro roi gwybod i'r meddyg teulu am unrhyw atgyfeiriadau newydd at eu gwasanaeth a/neu achosion a gaeir.

4.1.10 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 3:** Dylai BIP Caerdydd a'r Fro atgoffa staff gofal sylfaenol ac eilaidd y gellid ystyried unrhyw apwyntiadau iechyd fel cyfle i nodi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a allai yn ei dro atal cam-drin pellach, nodi risg i blant ac achub bywydau.

(Fel rhan o'r argymhelliad hwn, dylai BIP Caerdydd a'r Fro rannu'r gwersi i'w dysgu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg mewn perthynas â'u cyswllt â Kim ar 27 Tachwedd 2019).

_Heddlu De Cymru_

4.1.11 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 1:** Heddlu De Cymru i barhau i atgyfnerthu'r neges gyda swyddogion a staff sef, yn unol â'r canllawiau sydd bellach yn statudol ar CDTD, gellir rhoi datgeliadau mewn perthynas â chyn-bartneriaid.

4.1.12 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 2:** Dylai swyddogion wneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau blaenorol o gam-drin domestig wrth ymateb i ddigwyddiadau o'r fath ac ymchwilio iddynt.

4.1.13 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 3:** Dylid mabwysiadu dull mwy cyfannol a pheidio â'i chymryd yn ganiataol bod datgeliadau'r dioddefwr yn ffeithiol, fel y gwnaed yn yr achos hwn o ran a oedd digwyddiadau blaenorol wedi digwydd. Ar ben hynny, dylai swyddogion gydnabod budd tystiolaethol sicrhau eu bod yn siarad â'r bobl sy'n adrodd mewn achosion o'r fath, a allai roi darlun llawer mwy cywir o amlder digwyddiadau domestig sy'n ymwneud â chymdogion.

4.1.14 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 4:** Dylid ystyried cynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant i swyddogion mewn perthynas â cham-drin domestig, yn benodol mewn perthynas â rheolaeth drwy orfodaeth a'r effaith niweidiol y mae hyn yn ei chael ar iechyd meddwl dioddefwyr. Gallai datblygu ac adnewyddu'r 'sesiynau gwybodaeth' sydd eisoes yn cael eu darparu fod yn ffordd briodol o rannu gwybodaeth am y materion hyn, ynghyd â hyfforddiant mewn perthynas â'r ap 'Vulnerability'.

_Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru_

4.1.15 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 1:** Parhau i sicrhau bod cydweithwyr YGAC yn cofio pwysigrwydd dogfennaeth fanwl drwy gylchredeg nodyn i atgoffa y dylai trafodaethau (yn enwedig ynghylch cam-drin domestig posibl a/neu atgyfeiriad Byw Heb Ofn) gael eu dogfennu'n ddiogel bob amser.

4.1.16 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 2:** Parhau i ddarparu hyfforddiant sefydlu ar VAWDASV i gydweithwyr YGAC newydd. Yn ystod 2023/2024, darparu hyfforddiant VAWDASV annibynnol ar gyfer cydweithwyr YGAC presennol.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

4.1.17 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 3:** Yn ystod 2023/2024, cwblhau gwaith i ddigideiddio'r llwybr atgyfeirio Byw Heb Ofn i gydweithwyr YGAC sy'n gweithio yng nghanolfannau galwadau 999 a GIG 111 Cymru.

*Y Cwmni Adloniant Oedolion*

4.1.18 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 1:** Polisi Cam-drin Domestig i'w rannu gydag unrhyw un sy'n ymwneud â'r busnes.

4.1.19 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 2:** Cyfathrebu pellach ar sut y gallai'r busnes gefnogi unigolion trwy eu cyfeirio at y gwasanaethau hyn. (Boed y rhain yn gefnogaeth gan Pineapple neu'n gymorth cyntaf iechyd meddwl mewnol).

4.1.20 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 3:** Sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff allweddol sy'n gyfrifol am y gweithlu, yn benodol yn ymwneud â cham-drin domestig. Yn ogystal, dylid cadw'r hyfforddiant hwn yn gyfredol.

*Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir*

4.1.21 **Argymhelliad Asiantaeth Unigol 1:** Dylai'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir gynnal adolygiad o'u prosesau a'u gweithdrefnau i sicrhau eu bod bob amser yn gallu cyflawni eu dyletswyddau diogelu mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

## 4.2 Argymhellion y Panel Adolygu (Datblygwyd gan y Panel Adolygu)

4.2.1 Mae'r Panel Adolygu wedi gwneud yr argymhellion canlynol yn ystod yr adolygiad hwn mewn ymateb i'r gwersi a nodwyd.

4.2.2 **Argymhelliad 1 y Panel Adolygu:** Dylai Partneriaeth Bro Ddiogelach weithio gyda phartneriaid lleol i adolygu'r ymateb lleol i oedolion ifanc 18-25 oed. Dylai hyn gynnwys:

- Datblygu tystiolaeth o'r angen lleol.
- Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau yn gallu adnabod, nodi, asesu ac ymateb.
- Sefydlu llwybrau atgyfeirio cadarn at gymorth arbenigol.
- Cwblhau asesiad o anghenion hyfforddiant i nodi'r sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar weithwyr proffesiynol i alluogi'r ymateb hwn.
- Nodi'r camau y gall asiantaethau eu cymryd yn unigol ac ar y cyd.

4.2.3 **Argymhelliad 2 y Panel Adolygu:** Dylai Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a BIP Caerdydd a'r Fro integreiddio cam-drin domestig yn yr adolygiad o'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio.

(Fel y bo'n briodol, dylai hyn hefyd gysylltu â Strategaeth VAWDASV nesaf Caerdydd a Bro Morgannwg, a chael ei adlewyrchu ynddi).

4.2.4 **Argymhelliad 3 y Panel Adolygu:** Dylai Partneriaeth Bro Ddiogelach weithio gyda chomisiynwyr camddefnyddio sylweddau lleol i adolygu llwybrau presennol a'r angen am ddarpariaeth ryw-benodol.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

4.2.5 **Argymhelliad 4 y Panel Adolygu:** Dylai Partneriaeth Bro Ddiogelach weithio gyda phartneriaid lleol i adolygu'r ymateb lleol i'r diwydiant rhyw. Dylai hyn gynnwys:

- Datblygu tystiolaeth o'r angen lleol.
- Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau yn gallu adnabod, nodi, asesu ac ymateb.
- Sefydlu llwybrau atgyfeirio cadarn at gymorth arbenigol.
- Cwblhau asesiad o anghenion hyfforddiant i nodi'r sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar weithwyr proffesiynol i alluogi'r ymateb hwn.
- Nodi'r camau y gall asiantaethau eu cymryd yn unigol ac ar y cyd.

4.2.6 **Argymhelliad 5 y Panel Adolygu:** Dylai PDC Gorllewin Swydd Northampton weithio gyda phartneriaid lleol i sicrhau dealltwriaeth ac ymarfer cyson mewn perthynas ag atgyfeiriadau CAAR-i-CAAR.

4.2.7 **Argymhelliad 6 y Panel Adolygu:** Dylai Partneriaeth Bro Ddiogelach weithio gyda Heddlu De Cymru a phartneriaid lleol eraill i sicrhau dealltwriaeth ac ymarfer cyson mewn perthynas ag atgyfeiriadau CAAR-i-CAAR.

4.2.8 **Argymhelliad 7 y Panel Adolygu:** Dylai’r Swyddfa Gartref weithio gyda rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a SafeLives) i adolygu arferion a pholisi mewn perthynas â’r prosesau sydd ar waith i sicrhau bod trosglwyddiadau CAAR yn digwydd pan fydd dioddefwr cam-drin domestig yn symud i ardal(oedd) ac oddi yno. Dylai adolygiad o'r fath sicrhau bod ‘ardal gartref’ newydd y dioddefwr yn ymwybodol o unrhyw risgiau ac anghenion presennol, a gellir rhoi arwyddion rhybudd ar waith ar ôl trosglwyddo CAAR ar ôl i’r dioddefwr symud.

4.2.9 **Argymhelliad 8 y Panel Adolygu:** Dylai Partneriaeth Bro Ddiogelach adolygu'r arferion a'r polisi ar gyfer y CAACD mewn perthynas ag ymdrechion i gysylltu â dioddefwyr.

4.2.10 **Argymhelliad 9 y Panel Adolygu:** Dylai Partneriaeth Bro Ddiogelach weithio gyda Heddlu De Cymru a phartneriaid lleol eraill i sicrhau dealltwriaeth ac arfer cyson o ran meini prawf atgyfeirio CAAR, yn enwedig uwchgyfeirio, o ganlyniad i’r gwersi a ddysgir o'r adolygiad hwn.

4.2.11 **Argymhelliad 10 y Panel Adolygu:** Dylai’r Swyddfa Gartref gomisiynu adolygiad o'r broses CAAR yn genedlaethol, a’r canllawiau, hyfforddiant ac offer cysylltiedig.

4.2.12 **Argymhelliad 11 y Panel Adolygu:** Dylai Partneriaeth Bro Ddiogelach weithio gyda'r sector tai preifat i ddatblygu ymateb cyson i gam-drin domestig ac i wneud hynny fel rhan o adolygiad ehangach o werth mabwysiadu Dull Tai Cyfannol [36] y Gynghrair Tai Cam-drin Domestig (DAHA).

---

[36] Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.dahalliance.org.uk/innovations-in-practice/private-rented-sector.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

4.2.13 **Argymhelliad 12 y Panel Adolygu:** Dylai Partneriaeth Bro Ddiogelach sicrhau bod y gwersi i'w dysgu yn yr achos hwn yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau gweithredu mewn ymateb i argymhellion gan ALlDau eraill ynghylch llwybrau atgyfeirio (gan gynnwys holi a yw dioddefwr yn cael ei gefnogi gan asiantaeth arall) a rhannu gwybodaeth (gan gynnwys atgyfeiriadau heb ganiatâd).

4.2.14 **Argymhelliad 13 y Panel Adolygu:** Fel rhan o'r gwaith uchod ynghylch llwybrau atgyfeirio a rhannu gwybodaeth, dylai Partneriaeth Bro Ddiogelach weithio gyda phartneriaid lleol i adolygu arferion rhwyd ddiogelwch mewn ymateb i gau achosion.

4.2.15 **Argymhelliad 14 y Panel Adolygu:** Dylai Partneriaeth Bro Ddiogelach ysgrifennu at ddau reoleiddiwr y wasg yn y DU (IPSO[37] ac IMPRESS[38]) i fynegi eu pryderon ynghylch yr adroddiadau yn y cyfryngau yn yr achos hwn ac i'w hannog i hyrwyddo canllawiau presennol y Samariaid ar adrodd am hunanladdiad.

[37] Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.ipso.co.uk.
[38] Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.impressorg.com.



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.

# Atodiad 1: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **AAFDA** | Eiriolaeth yn Dilyn Cam-drin Domestig Angheuol |
| **ALMHS** | Y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cyswllt Acíwt |
| **BPAS** | Gwasanaeth Cyngor ar Feichiogrwydd Prydain |
| **CAVDAS** | Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro |
| **YCC** | Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig |
| **PDC** | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| **CAACD** | Cydlynydd Asesiadau ac Atgyfeiriadau Cam-drin Domestig |
| **DAHA** | Y Gynghrair Tai Cam-drin Domestig |
| **DASH RIC** | Rhestr Wirio Dangosyddion Risg Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu |
| **ALID** | Adolygiad Lladdiad Domestig |
| **CDTD** | Cynllun Datgelu Trais Domestig |
| **GATD** | Gorchymyn Amddiffyn Trais Domestig |
| **GP** | Practis Cyffredinol / Meddyg Teulu |
| **HIDVA** | Cynghorydd Iechyd Annibynnol ar Drais Domestig |
| **IDVA** | Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig |
| **ARhU** | Adolygiad Rheoli Unigol |
| **BGI** | Bwrdd Gofal Integredig |
| **CAAR** | Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg |
| **NGH** | Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Cyffredinol Northampton |
| **NHFT** | Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Gofal Iechyd Northampton |
| **SSG** | Swyddog Sy'n Gyfrifol am Ymchwiliad |
| **HDC** | Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd |
| **USY** | Uwch Swyddog Ymchwilio |
| **BIP** | Bwrdd Iechyd Prifysgol |
| **VAWDASV** | Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| **YGAC** | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |



Hawlfraint © 2021 Standing Together Against Domestic Abuse. Cedwir pob hawl.